



Mynediad i gynnwys a ddarlledir a chynnwys ar-alwad: Amser dal i fyny!

Argymhellion

Yn seiliedig ar yr ymchwil, bydd y Panel yn cynnig yr argymhellion canlynol, sy'n rhannu'n bum categori:

- Argaeledd
- Ymwybyddiaeth
- Ansawdd
- Technoleg
- Cwynion ac adborth

Argaeledd

- Dylid mynnu bod darparwyr gwasanaethau rhaglenni ar-alwad yn cynnig yr un ganran o is-deitlau â'r hyn y mae eu sianeli teledu cysylltiedig sy'n amserlennu rhaglenni yn ei wneud, neu eu bod yn cael yr un targedau â ddarlledwyr sy'n cynnig cynnwys tebyg ar deledu wedi'i amserlennu, os yw'n sianel ar ei phen ei hun;
- Wrth werthu cynnyrch neu cyn gwerthu'r cynnyrch, dylai pob gwasanaeth y telir amdano ddatgelu pa ganran o raglenni sydd ag: a) iaith arwyddion; b) isdeitlau; ac, c) disgrifiadau sain;
- Dylid ystyried cynyddu'r gofyniad ynghylch cynnwys sydd ag iaith arwyddion a disgrifiadau sain.

- Dylai darlledwyr a darparwyr ddweud yn glir wrth y defnyddwyr beth yw eu meini prawf ar gyfer darparu gwasanaethau mynediad, pryd ac ar ba lwyfannau y maen nhw ar gael, er mwyn helpu defnyddwyr i ddeall beth sydd ar gael a gwneud penderfyniadau gwylio.
- Os bydd disgrifiadau sain neu is-deitlau wedi'u hysbysebu ymlaen llaw neu mewn cyfres barhaus, ac nad ydynt ar gael wedyn am ryw reswm, dylai darlledwyr esbonio pam ac ymddiheuro'n glir, a hynny ar ffurf briodol;

Ymwybyddiaeth

- Dylai pob rhanddeiliad, gan gynnwys Ofcom, darparwyr cyfathrebiadau, darlledwyr, adwerthwyr, darparwyr llwyfan ac elusennau gydweithio i hyrwyddo gwasanaethau mynediad a thechnoleg wedi'i haddasu ymhlith y cyhoedd, nid dim ond y rheini sydd â nam ar y golwg neu'r clyw; a dylai pob rhanddeiliad gydweithio i sicrhau bod canllawiau a chefnogaeth ar gael i ddefnyddwyr ar sut mae ysgogi a defnyddio dewislenni llais a dewislenni ar y sgrin a gwasanaethau mynediad ar draws dyfeisiau;
- Wrth danysgrifio i wasanaeth neu wrth gofrestru ar lwyfan, dylai darparwyr holi ynghylch unrhyw ofynion sy'n gysylltiedig â nam ar y synhwyrâu yn ystod y broses gofrestru a chynnig cyngor a chanllawiau cymorth fel sy'n briodol - a rhoi cyfle i ddefnyddwyr ddiweddarau eu gwybodaeth;
- Dylai darlledwyr a darparwyr llwyfan hyrwyddo dewisiadau personol y Cyfeirydd Rhaglenni Electronig, os ydynt ar gael;
- Dylai darparwyr sicrhau bod y gwasanaethau mynediad sydd ar gael ar gyfer rhaglenni ar-lein yn cael eu hyrwyddo'n well, drwy gyfeiryddion rhaglenni ac ar ddechrau darllediadau;
- Dylai adwerthwyr hyfforddi staff ynghylch dewisiadau gwasanaethau mynediad y caledwedd maen nhw'n ei werthu;
- Dylai darlledwyr ystyried datblygu ffrydiau disgrifiadau sain annibynnol, tebyg i'r hyn sydd ar gael mewn sinemâu.

Ansawdd

- Dylai darlledwyr ac Ofcom rhoi'r flaenoriaeth bennaf i gynnig ateb technegol i'r broblem oedi gydag is-deitlo byw cyn gynted ag y bo modd;
- Dylai darlledwyr a gwneuthurwyr rhaglenni wella cywirdeb yr is-deitlau;
- Dylai darparwyr ganolbwyntio ar adolygu is-deitlau yn well cyn eu darlledu, er mwyn sicrhau nad ydynt yn cuddio gwybodaeth bwysig, a dylent sicrhau bod gwaith graffig a chapsiynau ar y sgrin yn cael eu rhoi fel nad oes angen codi a gostwng yr is-deitlau o'u cwmpas.

Technoleg

- Dylai Ofcom ddilyn argymhellion blaenorol y Panel¹ ynghylch gwelliannau i'r Cyfeirydd Rhaglenni Electronig;
- Dylai'r diwydiant lunio technoleg sy'n golygu bod gwasanaethau mynediad yn gallu gweithio ar bob llwyfan;
- Dylai darparwyr ychwanegu opsiwn hidlo 'hygyrchedd' ar y Cyfeirydd Rhaglenni Electronig;
- Dylai darparwyr caledwedd gydweithio gyda darlledwyr i gytuno ar leoliadau a dyluniadau safonol ar gyfer offer gwasanaethau mynediad fel botymau ar declynnau rheoli teledu, dewislenni ar sgrin, y gallu i ddefnyddio a newid llais a sicrhau eu bod yn gydnaws â darllenwyr sgrin;
- Dylai darlledwyr ystyried datblygu delweddaeth i gynrychioli synau er mwyn osgoi cael is-deitlau hir, er enghraifft, eicon ar gyfer 'ffôn yn canu' neu 'sŵn traed'. Dylai darlledwyr barhau i ddatblygu technoleg fel bod gwylwyr yn gallu dewis yn bersonol sut bydd yr is-deitlau a'r disgrifiadau sain yn ymddangos, yn arbennig ar-lein neu gyda gwasanaethau ar-alwad a cheisio sicrhau bod y dechnoleg hon yn safonol.

Cwynion ac adborth:

- Dylai darlledwyr ddweud yn glir wrth y gwylwyr sut mae rhoi gwybod am unrhyw wallau yn y ddarpariaeth o wasanaethau mynediad a;
- Dylai darlledwyr fynd ati o ddifrif i ofyn am farn aelodau'r gynulleidfa sydd â nam ar y synhwyrâu ynghylch ansawdd, ac adolygu adborth yn rheolaidd gan ei ddefnyddio i sicrhau eu bod yn bodloni anghenion y gynulleidfa.

¹ <http://www.communicationsconsumerpanel.org.uk/downloads/epg-code-amendments-oct-2015-final.pdf>

Geirfa

Gwasanaethau mynediad: is-deitlo, iaith arwyddion a disgrifiadau sain gwasanaethau rhaglenni.

Disgrifiad sain: troslais yw disgrifiad sain sy'n esbonio beth sy'n digwydd ar y sgrin - gan gynnwys cyfathrebu di-eiriau, yr hyn sy'n digwydd, lleoliad ac elfennau o'r set, er mwyn helpu gwylwyr dall neu wylwyr sydd â nam ar y golwg i ddeall ac i fwynhau'r rhaglen.

Dal i fyny: ffurf ar raglenni ar-alwad sy'n golygu bod rhaglenni ar gael ar-alwad am gyfnod penodol ar ôl i'r rhaglen gael ei darlledu mewn amser real (e.e. teledu dal i fyny 7-diwrnod).

Cyfeirydd Rhaglenni Electronig (EPG): systemau dewislenni sy'n cynnig cyfeirydd ar sgrin i bobl sy'n defnyddio teledu.

Nam ar y clyw: pobl sydd wedi colli eu clyw yn rhannol, a rheini sy'n gwbl fyddar.

Oedi: oedi rhwng y siarad a'r *is-deitl* cyfatebol yn ymddangos ar y sgrin.

Ar-alwad - neu 'fideo-ar-alwad' neu 'gwasanaeth rhaglenni ar-alwad' (ODPS): unrhyw raglen sy'n cael ei llwytho i lawr neu ei gwyllo ond nid fel teledu byw; mae'n cynnwys rhaglenni teledu dal i fyny a rhaglenni ar-lein yn unig fel ffilmiau neu gynnwys wedi'i archifo. Mae modd cael gafael ar raglenni ar-alwad drwy wefan, ap ar wasanaeth teledu clyfar, blwch digidol neu unrhyw ddyfais arall.

Gwasanaethau rhaglenni ar-alwad (ODPS) - gweler 'Ar-alwad'

iaith arwyddion: mae iaith arwyddion yn golygu defnyddio ystumiau â llaw, mynegiant wyneb ac iaith corff i gyfleu ystyr. Iaith Arwyddion Prydain (BSL) yw'r iaith arwyddion fwyaf poblogaidd yn y Deyrnas Unedig. Mae hon yn iaith unigryw (wedi'i chydabod gan y Llywodraeth) ac mae ganddi gystrawen a geirfa wahanol i'r iaith Saesneg. Yn ogystal â gwahanol ffurfiau ar iaith arwyddion mewn gwledydd eraill, mae Sign Supported English (sy'n dueddol o ddilyn cystrawen a geirfa Saesneg) a Makaton (ffurf symlach o iaith arwyddion a ddefnyddir weithiau gyda phlant byddar) yn cael eu defnyddio yn y DU hefyd².

Cyfeiryddion Rhaglenni Electronig sy'n Siarad: cyfeiryddion rhaglenni electronig sy'n defnyddio technoleg testun i leferydd i ddarllen y wybodaeth yn uchel.

² https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0016/40273/tv-access-services-2015.pdf

Is-deitlau/is-deitlo: mae is-deitlo yn cael ei ddiffinio gan Ofcom fel testun ar sgrin sy'n cynrychioli effeithiau sain a lleferydd na all pobl sydd â nam ar y clyw eu clywed o bosibl, a bod y testun yn cyd-fynd â'r sain mor agos ag y bo modd³.

Fideo-ar-alwad - gweler 'Ar-alwad'

Nam ar y golwg: pobl sydd wedi colli eu golwg yn rhannol, a rheini sy'n gwbl ddall.

³ https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0016/40273/tv-access-services-2015.pdf